

Datganiad Diogelu Data (“DPS”) ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig

Mae'r DPS hwn yn nodi pwy fydd yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu mewn cysylltiad â'ch Benthyciad Ôl-raddedig (“PGL”) (Benthyciad Ffioedd Dysgu Ôl-raddedig [“PGTFL”] os ydych yn gwneud cais trwy Gyllid Myfyrwyr Gogledd Iwerddon [“SFNI”]) (eich “gwybodaeth bersonol”) a sut y byddant yn ei defnyddio.

Mae'r DPS hwn yn berthnasol i'r rhai sy'n gwneud cais am PGL/PGTFL trwy gyfrwng Cyllid Myfyrwyr Cymru, Cyllid Myfyrwyr Lloegr neu SFNI.

Defnyddir eich gwybodaeth bersonol er mwyn prosesu'ch cais am PGL/PGTFL.

Mae swyddogaethau penodol sy'n ymwneud â cheisiadau am PGL/PGTFL wedi cael eu trosglwyddo i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig (“SLC”) gan:

- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg;
- Gweinidogion Cymru; ac
- Adran yr Economi, Gogledd Iwerddon

Ar gyfer ymgeiswyr sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon (“NI”), cyflawnir swyddogaethau penodol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr PGTFL gan yr Awdurdod Addysg (“EA”).

Bydd SLC (ac EA pan fo hynny'n berthnasol i ymgeiswyr NI) yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol er mwyn:

- pennu a ydych yn gymwys i gael cyllid i fyfyrwyr ac os felly, swm uchaf y cymorth ariannol y mae gennych yr hawl i'w gael; a/neu
- dalu cymorth i fyfyrwyr.

Mae'r Weinyddiaeth berthnasol (naill ai'r Adran Addysg, Gweinidogion Cymru neu Adran yr Economi NI) a/ neu SLC (a'r EA pan fo hynny'n berthnasol) yn rheolwyr data ar y cyd ar gyfer eich gwybodaeth bersonol. Os hoffech weld eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch ag SLC, a fydd yn gallu'ch cynghori mewn perthynas â chais gwrthrych am wybodaeth.

Mae SLC yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch er mwyn:

- caniatáu i'r broses o asesu a thalu cyllid i fyfyrwyr gael ei harchwilio;
- cynnal neu ddatblygu systemau a phrosesau; a
- rhoi gwasanaethau cwsmeriaid i chi, ymateb i unrhyw gwestiynau sydd gennych a diweddarau gwybodaeth eich cyfrif.

Archwilir yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu i sicrhau ei chywirdeb ac fe'i defnyddir i ddarganfod ac atal twyll a/ neu wyngalchu arian. Er mwyn gwneud hyn, efallai y bydd SLC yn cael gwybodaeth gan a/neu'n rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau neu unigolion eraill megis, fel enghraifft heb gyfyngiad:

- yr Adran Gwaith a Phensiynau (“DWP”) er mwyn archwilio'ch rhif Yswiriant Gwladol (“NINO”) (os na archwiliwyd hwn yn flaenorol) a'ch manylion personol;
- y Swyddfa Gartref, gan gynnwys Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi (“HMPO”), i archwilio manylion eich pasbort a/neu unrhyw ddogfennau preswyllo/hunaniaeth os ydych chi wedi eu darparu;
- Cyllid a Thollau EM (“HMRC”) er mwyn archwilio'ch NINO i hwyluso'r broses o gasglu ad-daliadau benthyciad. Efallai y bydd HMRC wedi rhannu mynediad i wybodaeth cyfrif eich benthyciad er mwyn helpu SLC i gasglu ad-daliadau benthyciad;
- efallai y bydd Canolfan Byd Gwaith yn gofyn i SLC roi cadarnhad o'ch cymhwysra i gael benthyciad i'ch helpu i sicrhau NINO; a/neu
- gyrff eraill gan gynnwys banciau; cymdeithasau adeiladu; y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol; Fisâu a Mewnffudo y DU (“UKVI”); trydydd partïon y maent wedi'u contractio i gynnal archwiliadau hunaniaeth, preswyllo ac incwm; darparwyr cyfleustodau; HMRC; HMPO; ac asiantaethau atal twyll a gorfodi'r gyfraith megis yr Heddlu a'r Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, i archwilio cywirdeb yr wybodaeth ac i atal a darganfod twyll yn y broses o ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr ac yn ehangach.

Rhaid i SLC gadw gwybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'ch cais er mwyn trin taliadau, pan fo hynny'n briodol, ac mae'n rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth hon.

Efallai y bydd SLC a sefydliadau eraill yn troi at yr wybodaeth hon ac yn ei defnyddio hefyd er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian, er enghraifft, wrth:

- archwilio manylion mewn ceisiadau am gredyd a chyfleusterau eraill sy'n gysylltiedig â chredyd neu gyfleusterau eraill;
- rheoli cyfrifon neu gyfleusterau credyd ac sy'n gysylltiedig â chredyd;
- adennill dyled;
- archwilio manylion mewn cynigion a hawliadau am bob math o yswiriant; a/neu
- archwilio manylion ymgeiswyr am swydd a chyflogeion.

Os hoffech gael manylion yr asiantaethau atal twyll perthnasol, cysylltwch ag SLC yn Counter Fraud Services, Student Loans Company Limited, 100 Bothwell Street, Glasgow, G2 7JD.

Yn ogystal, efallai y bydd SLC, law yn llaw â sefydliadau eraill, yn troi at ac yn defnyddio'r wybodaeth a gofnodir gan asiantaethau atal twyll mewn gwledydd eraill.

Os byddwch yn torri unrhyw amod(au) sy'n berthnasol i ddarpariaeth cyllid i fyfyrwyr i chi, efallai y bydd SLC yn rhannu gwybodaeth amdanoch chi a'ch cyfrif gydag unrhyw berson neu sefydliad, y gallai gynorthwyo SLC i ddod o hyd i chi a/neu i adennill symiau benthyciad sy'n weddill.

Bydd SLC yn rhannu gwybodaeth gyda'ch Darparwr Addysg Uwch ("HEP") fel bod modd i SLC:

- dalu unrhyw fenthyciad y mae gennych yr hawl i'w gael; a
- chadarnhau manylion eich cwrs astudio.

Efallai y bydd eich HEP yn rhannu mynediad i'ch cais a gwybodaeth eich cyfrif yn y dyfodol at y dibenion hyn.

Os ydych yn astudio cwrs a gymeradwywyd gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol, Cyngor Gofal Cymru ("CCW"), neu Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth i gael bwrsariaeth gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, CCW neu'r Adran Iechyd os ydych yn astudio yng Ngogledd Iwerddon. Os byddwch yn gwneud cais am gymorth ariannol gan un o'r sefydliadau hyn, efallai y bydd SLC yn rhannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch benthyciad a'ch presenoldeb yn HEP. Dim ond yr wybodaeth bersonol a fydd yn ofynnol er mwyn cynnal yr asesiad o gymhwystra i gael cyllid fydd yn cael ei throsglwyddo i'r sefydliad perthnasol.

Bydd modd i'r Weinyddiaeth berthnasol droi at wybodaeth eich cyfrif i ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid i chi ac efallai y bydd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i fonitro perfformiad y system cyllid i fyfyrwyr ac i ddatblygu polisïau neu fentrau yn y dyfodol. Efallai y bydd y Weinyddiaeth berthnasol ac SLC yn rhannu data gyda thrydydd partïon at ddibenion ymchwil ac ystadegol. Bydd unrhyw allbwn a gyhoeddir yn ddienw ac ni fydd yn enwi unigolion.

Wrth gyflawni swyddogaethau statudol HEFCE mewn perthynas ag ariannu addysg, efallai y bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ("HEFCE"), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("HEFCW"), a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ("HESA"), sy'n cyflawni swyddogaethau penodol ar ran HEFCE a HEFCW, yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd at ddibenion dadansoddi ystadegol. Ni fydd HESA, HEFCE, HEFCW yn enwi unigolion mewn unrhyw ganlyniadau a gyhoeddir.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i SLC a'ch prifysgol, eich coleg neu'ch sefydliad hyfforddi, ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus y maent yn eu trin ac efallai y byddant yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych er mwyn darganfod ac atal twyll. Yn ogystal, efallai y byddant yn rhannu'r wybodaeth, at yr un dibenion, gyda sefydliadau eraill sy'n trin cronfeydd cyhoeddus.

Efallai y bydd SLC yn cymharu'r wybodaeth sydd ganddo ar ei systemau gyda'r wybodaeth ar systemau a ddefnyddir gan sefydliadau eraill gan gynnwys HMRC, y Swyddfa Gartref (gan gynnwys HMPO ac UKVI), y Gwasanaeth Carchardai, y Post Brenhinol a thrydydd partïon yr ydym wedi'u contractio i gyflawni archwiliadau manylion adnabod ac incwm. Mae hyn yn helpu SLC i wella cywirdeb yr wybodaeth y mae'n ei dal ac i leihau twyll.

Gallwch gael mynediad diogel at eich cyfrif ar-lein trwy'r Rhyngwyd.